


# Y Duw Triunol

## Llythyr Bugeiliol at Deulu Asaph oddi wrth Esgob Gregory
## Dydd Iau 25 Mehefin 2009

Mae’r hil ddynol yn ei chael hi’n anodd i feddwl am anfeidroldeb. Rydyn ni mor feidrol ein hunain, yn byw mewn cornel fach o’r byd, yn ymwybodol fod ein bywydau wedi'u caethiwo gan amgylchiadau a meidroldeb - yn enwedig ar hyn o bryd. Mae popeth rydym yn ei wybod yn dangos meidroldeb i ni. Faint o filltiroedd sydd yna nes y byddwn i wedi cyrraedd? Faint o oriau fydd hynny’n ei gymryd? Faint oedd hynny’n gostio? Eto, wrth i ni ddod at Dduw, mae’n rhaid i ni sôn am anfeidroldeb. Petaen ni’n darllen neu hyd yn oed yn ysgrifennu miloedd o gyfrolau o ddiwinyddiaeth, yw gwir yw na fyddai hynny’n ein harwain ond at ymylon lleiaf ei dragwyddoldeb. Mae’r holl iaith sydd gennym ni i sôn am Dduw - pob gair- yn ymdrech i roi ffurf i rywun sydd y tu hwnt i ffiniau. Mae ein geiriau’n anghyflawn, pob ddisgrifiad heb ei orffen, popeth yn ddim ond honiad, syniad, cymhareb. Fel y mae’r emyn Saesneg hyfryd yn dweud: “*Thou art a sea without a shore, a sun without a sphere*”.

Mae Cristnogion yn credu fod yna un rheswm pam y gallwn ni ddechrau sôn am Dduw yn ystyrlon - datguddiad. Mae Duw wedi datgelu ei hun ac wedi dweud wrthym rywbeth amdano ei hun. “Ni chei weld fy wyneb, oherwydd ni chaiff dyn fy ngweld a byw” a ddywedwyd wrth Moses *(Exodus 33.20)* a mae hynny’n dal yn wir am gyfanrwydd bodolaeth Duw, ond, rydyn ni’n credu fod Duw wedi’i ddatgelu ei hun yn y Gair, ac mae’r Gair yn bodoli i ni mewn dwy ffordd – yng Ngair Duw ei hun, Iesu Grist, ac, yn y ‘fersiwn awdurdodedig’, y cofnod o’r datgeliad hwnnw, sef y Beibl. Ond efallai fod hynny’n destun llythyr bugeiliol arall......

Weithiau mae’r syniad o anfeidroldeb mor enfawr nes ein bod yn tueddu i'w wrthod. “Os mai a Duw greodd y byd”, gofynna’r plentyn ysgol, "pwy greodd Duw?" “Os yw Duw yn hollbresennol, pam ei fod yn caniatáu coronafeirws?” Ond, mae anfeidroldeb yn real. Does ond eisiau i ni fynd allan ac edrych ar awyr y nos i sylweddoli fod ein bydysawd ni ein hunain yn ymddangos yn anfeidrol. Allwn ni ddim gweld ei ben draw a ‘dyw hyd yn oed ein telesgopau mwyaf nerthol ddim wedi gallu plymio’i ddyfnder. Yn grediniwr neu’n anghrediniwr, yn Gristion, Mwslim neu’n anffyddiwr, fe allwn ni i gyd cnoi cil ar y cwestiwn: o ble y daeth hyn i gyd? Mae’r gwyddonwyr mwyaf blaengar yn dweud fod nad oes ystyr i’r cwestiwn o beth oedd yn digwydd cyn i hyn i gyd gael ei greu, na all unrhyw ‘cynt’ fod pan nad oes yna unrhyw ofod-amser, nad oedd unrhyw beth o gwbl yn bodoli cyn yr amrywiad cwantwm a ddechreuodd y cyfan.

Mae Cristnogion, fodd bynnag, yn rhoi ateb llawer mwy diddorol, fod yna, cyn bod y bydysawd, dri yn un, y triunol - un Duw, ond yn drindod o bersonau, yn gyforiog o fywyd a chariad; fod yna, yng ngwaelod pwll diwaelod y bydysawd, berthynas a chariad; Creawdwr, Gair ac Ysbryd. Pam fod pobl wedi’u clymu cymaint mewn perthynasau? Pam fod ffrindiau a chariadon mor bwysig i ni? Yn ôl Darwinwyr, oherwydd yr awydd i oroesi, ond beth a roddodd i'r bydysawd y fath angerdd at fywyd yn y lle cyntaf? Rwyf eisiau dweud fod pob bywyd yn sanctaidd oherwydd bod pob bywyd yn tarddu o gariad, cariad Duw sy’n galw'r cread iddo’i hun – y galon yn galw ar y galon, fel roeddwn i’n sôn mewn llythyr cynharach.

Os yw hynny’n iawn, os yw natur Duw fel Trindod yn golygu mai cariad a pherthynas yw’r gwirionedd sylfaenol am y bydysawd, yna mae pob cariad yn sanctaidd - nid y math o gariad hunanol sy’n mynnu boddhad ei hunan, ond gwir gariad sy’n aberthu ei hunan, sy’n meithrin, yn iachau, yn cynnal ac yn annog tyfiant. Mae’n golygu mai’r arwyddocâd tragwyddol yw nid beth sy’n parhau’r hiraf neu sydd fwyaf, y gwareiddiad dynol mwyaf buddugoliaethus neu’r seren sy’n byw hwyaf, ond ansawdd y cariad y gall unrhyw fywyd dynol ei gynhyrchu. “Gyfeillion annwyl, gadewch i ni garu ein gilydd, oherwydd o Dduw y mae cariad” (1 Ioan 4.7).

Cymerodd esgob newydd hyn fel ei harwyddair yn ddiweddar: Amor Vincit Omnia, Mae cariad yn goresgyn popeth. “Yr wyf yn gwbl sicr na all nac angau nac einioes nac angylion na thywysogaethau, na’r presennol na’r dyfodol, na’r grymusterau nac uchelderau na dyfnderau na dim arall a grëwyd, ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd *(Rhufeiniaid 8.38,39).*

Mae’r drindod yn rhywbeth na fydd yr un ohonom byth yn ei ddatrys, ar yr ochr hon o dragwyddoldeb beth bynnag, ond mae’r ddysgeidiaeth hon am Dduw yn ein hannog i ymhyfrydu mewn cariad, y cariad sy’n ein clymu â’r Drindod, sy’n cael ei ddatgelu i ni yng nghariad Duw, ac yn y cariad sydd gennym ninnau at ein gilydd.

Os gall unrhyw beth oresgyn coronafeirws, cariad yw hwnnw. Os oes unrhyw beth yn adnewyddu ein nerth a’n gobaith, cariad yw hwnnw. Os all unrhyw beth wneud gwahaniaeth, bydd wedi’i wreiddio mewn cariad. Dyma’r hyn y mae datguddiad Duw ohono’i hunan yn ein dysgu, ac mae’n rhoi rhaglen i ni ar gyfer yfory ac ar gyfer heddiw.

+Gregory Llanelwy